## Diffiniad o anghenion dysgu ychwanegol

(1) Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd (pa un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol ai peidio) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

(2) Mae gan blentyn sydd o'r oedran ysgol gorfodol neu berson sy'n hŷn na'r oedran hwnnw anhawster dysgu neu anabledd—

(a) os yw'n cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran, neu

(b) os oes ganddo anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 (p. 15) sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.

(3) Mae gan blentyn sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol anhawster dysgu neu anabledd os yw'r plentyn yn debygol o fod o fewn isadran (2) pan fydd o'r oedran ysgol gorfodol, neu y byddai'n debygol o fod felly pe na bai darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei gwneud.

(4) Os yw'r iaith (neu'r ffurf ar iaith) y mae neu y bydd person yn cael ei addysgu ynddi yn wahanol i iaith (neu ffurf ar iaith) sy'n cael neu sydd wedi cael ei defnyddio gartref, nid yw hynny'n unig yn golygu bod gan y person anhawster dysgu neu anabledd.

Bydd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da o ran eu dysgu ac ni fydd ganddynt ADY ac ni fydd angen darpariaeth ddysgu ychwanegol arnynt. Bydd anghenion unigol dysgwyr yn cael eu diwallu o fewn y ddarpariaeth gyffredinol yn yr ysgol neu'r lleoliad. Ar sail tystiolaeth a gaiff ei chasglu dros gyfnod, dylai fod yn bosibl gwybod pa ddysgwyr nad ydynt yn gwneud y cynnydd disgwyliedig.

Ym mhob achos, rhaid penderfynu beth sy'n rhesymol i'w ddisgwyl o ran cynnydd plentyn. Nid yw'r ffaith nad yw plentyn yn gwneud fawr o gynnydd, a bod ei gyrhaeddiad yn isel, yn golygu o reidrwydd bod gan ganddo ADY. Mae'n anochel y bydd yr holl ddysgwyr mewn ysgol yn datblygu i wahanol raddau dros unrhyw gyfnod penodol, ac nid yw'r ffaith bod dysgwr yn tangyflawni o'i gymharu â'i gyfoedion yn brawf, ar ei ben ei hun, fod ganddo ADY. Yn wir, wrth ystyried anghenion dysgwyr, mae'n bosibl y daw'n amlwg eu bod yn gwneud cynnydd da, ond o fan cychwyn isel. O ganlyniad, mewn unrhyw ysgol, bydd dysgwyr sydd â chyrhaeddiad a gallu is ond a fydd yn dangos cynnydd yn araf ond yn gyson. Mae'n bosibl iawn y bydd angen cymorth arnynt ac y bydd angen addasu'r cwricwlwm i'w helpu, ond nid yw hynny o reidrwydd yn golygu bod ganddynt ADY.

Y Cynllun Datblygu Unigol (CDU) yw'r ddogfen sy'n cynnwys disgrifiad o'r ADY sy'n atal y dysgwr rhan cyflawni ei botensial addysgol a disgrifiad o'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y bydd ei hangen i oresgyn neu liniaru'r rhwystr hwn. Caiff ei baratoi

mewn cydweithrediad â’r dysgwr a rhieni/gofalwyr y dysgwr ac ar y cyd ag unrhyw weithwyr proffesiynol eraill sy’n ymwneud â’r plentyn.

Mae’n bosibl y bydd y dysgwyr prin hynny nad ydynt yn gwneud cynnydd da drwy gyfrwng y ddarpariaeth ysgol gyffredinol, yn cael eu hystyried yn ddysgwyr sydd ag ADY ac y bydd angen darpariaeth ddysgu ychwanegol arnynt. Os felly, bydd angen i’r ysgol baratoi a chynnal CDU sy’n nodi’r hyn sy’n rhwystr i’r disgybl a’r ddarpariaeth y bydd yn ei sicrhau i fynd i’r afael â’r rhwystr hwn. Bydd y CDU yn rhoi manylion y strategaethau a’r ymyriadau a fydd yn ychwanegol, neu’n wahanol i’r ddarpariaeth arferol i ddysgwyr o’r un oed.